



*Dafydd ap Gwilym.net*

# Crefft Dafydd ap Gwilym

## A Cynfael Lake

Bu crefft Dafydd ap Gwilym yn destun edmygedd i'w gyfoeswyr ac i lu o feirdd a sylwebyddion a'u dilynodd er mai dychymyg a dyfeisgarwch *eos Dyfed* a hawliodd y sylw pennaf. Trodd Madog Benfras ac Iolo Goch ill dau at ddelweddau a berthynai i fyd y saer wrth gyfleu meistrolaeth y bardd ar ei gyfrwng. *Pensaer y wengaer wingerdd* ac *ysgwîr gwawd* oedd Dafydd yng ngolwg Madog Benfras;<sup>1</sup> *pensaer y ieithoedd*, ategodd Iolo Goch, ac aeth rhagddo i ddweud amdano: *Lluniai fawl wrth y llinyn, / Llyna arfer dda ar ddyn*.<sup>2</sup> Pan aeth Lewis Morris ati yn y ddeunawfed ganrif i gloriannu prifeirdd yr oesoedd yr oedd Dafydd ap Gwilym ymhlith y dyrnaid o feirdd a osododd ar y brig.<sup>3</sup> 'Pwy burach a chyfoethocach ei iaith, lyfnach a gwastatach ei ymadrodd?', holai Owain Myfyr yn yr anerchiad a luniodd ym mis Gorffennaf 1789 i'w gynnwys yn *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*.<sup>4</sup> Cyfeiriodd Thomas Parry yn ei dro at 'his complete mastery of the intricate requirements of Welsh prosody in his time',<sup>5</sup> tra dewisodd R Geraint Gruffydd fawrygu'r 'athrylith o grefftwr yn canu'n feistraidd ar amrywiaeth mawr o bynciau' a'i 'feistrolaeth lwyr ar y grefft farddol'.<sup>6</sup> Ategwyd ei ddyfarniad gan Alan Llwyd a alwodd sylw at ei 'feistrolaeth anghyffredin ar dechneg a mynegiant, ar iaith a mydryddiaeth a chynghanedd'.<sup>7</sup>

Daw athrylith y crefftwr i'r amlwg mewn sawl ffordd. Cynigir yn y rhan hon o'r rhagymadrodd amlinelliad o'r elfennau y bu cenedlaethau o feirniaid yn eu trafod a'u dadansoddi, a rhoddir sylw yn benodol i gynganeddion Dafydd ap Gwilym; diau fod tafod John Rowlands yn ei foch pan awgrymodd mai pynciau saff sydd yn 'osgoi

<sup>1</sup> GDG 424–5.

<sup>2</sup> GDG 422.

<sup>3</sup> Gw. Hugh Owen, *The Life and Works of Lewis Morris (Llewelyn Ddu o Fôn) 1701–1765* (Anglesey Antiquarian Society and Field Club, 1951). Y tri arall a rannai'r un safle oedd Gwalehmai, Dafydd ab Edmwnd a Goronwy Owen. Cafodd Dafydd ap Gwilym gan Lewis 19 allan o 20 ar gyfrif ei awen a'i fedr cynganeddol a 18 allan o 20 am ei ddysg a'i wybodaeth.

<sup>4</sup> *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, gol. Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789), xli.

<sup>5</sup> Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym's poetic craft', *Poetry Wales* 8 (1973), 34.

<sup>6</sup> *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, gol. Alan Llwyd (Llandybie, 1980), 43.

<sup>7</sup> *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, 121.

llawer o embaras' yw'r rhain!<sup>8</sup> Yn y lle cyntaf y mae hyfedrwydd technegol y bardd ar ei gyfrwng yn destun rhyfeddod: ei feistrolaeth ar y mesurau a'r addurniadau a berthynai iddynt ar y naill law a'i feistrolaeth ar y gynghanedd ar y llaw arall. Er mai'r cywydd yw'r mesur a gysylltir yn fwyaf arbennig â'r bardd canodd saith awdl ddefodol ynghyd â thair cyfres o englynion, ac aeth R Geraint Gruffydd mor bell ag awgrymu fod 'awdlau mawl Dafydd ap Gwilym yn orchestol ... Fe fyddaf yn meddwl weithiau mai'r awdlau hyn, ac nid y cywyddau, yw pennaf gogoniant barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol diweddar'.<sup>9</sup> Er i Dafydd ap Gwilym ganu llai o awdlau na Gruffudd ap Maredudd, 'y mwyaf o'r Gogynfeirdd wedi cwmp Llywelyn ap Gruffudd',<sup>10</sup> ac er mai cyfyng yw rhychwant y mesurau a ddefnyddir ynddynt, yn wahanol i awdlau'r bardd o Fôn, cysylltir y penillion â'i gilydd yn grefftus trwy gyrch gymeriad yn unol â chonfensiwn y canu. At hyn, gwneir defnydd cywrain o addurn y cymeriad llythrennol ac o'r odl fel ei gilydd. Cynhelir yr un odl trwy gydol yr 'Awdl i lfor Hael' ac y mae'n gwbl briodol mai gair sy'n odli ag *lfor* sy'n digwydd yn safle'r brifodl. Yn yr un modd, cynhelir yr odl *-ad* yn y dilyniant o doddeidiau sy'n ffurfio ail ran 'Marwnad Angharad'. Gohirir arfer yr odl *Angharad* tan y diwedd yn deg ac enw'r wraig ymadawedig sy'n cloi'r gerdd. Cynhelir y cymeriad *Ll* trwy gydol yr hanner cant a dwy o linellau yn 'Moliant Llywelyn ap Gwilym' a defnyddir y cymeriad *Rh* i roi undod i'r gyfres o doddeidiau yn ail ran 'Dychan i Rys Meigen'. Cynhelir yr un brifodl trwy'r 16 englyn yn rhan gyntaf yr awdl ddychan ac y mae'r cymeriad yn amlwg hefyd gan fod y cymeriad *C* yn uno'r deg englyn cyntaf a'r cymeriad *G* yn uno'r chwech sy'n dilyn. Tybed ai dull cynnil Dafydd ap Gwilym o ddilorni ei elyn sydd yma? Gallai'r modd y cyfunwyd y gytsain feddal a'r gytsain galed awgrymu na pherthynai i Rys anian a chelfyddyd y gwir grefftwr.<sup>11</sup> *Cyfraith fydr iaith ni fedrai*, edliwiai Dafydd iddo.<sup>12</sup>

Y cywydd, fodd bynnag, oedd prif gyfrwng Dafydd ap Gwilym er nad oes modd gwybod bellach ai Dafydd ei hun a oedd yn gyfrifol am gywreinio mesur distadl y traethodl (gweler er enghraifft gerdd 148 'Y Bardd a'r Brawd Llwyd'), mesur nad ymwrthodwyd yn llwyr â'i nodweddion fel y tystia'r llinellau digynghanedd niferus yn y cywyddau.<sup>13</sup> Bid a fo am hynny, bernir mai cywyddau Dafydd a sicrhaodd fod y mesur yn un cymeradwy yng ngolwg ei gyd-brydyddion ac yng ngolwg cynulleidfaoedd dethol yr oes, a dyma un wedd ar hynodrwydd y bardd a'i ganu. 'Yn fyr, fe ddug i fod ddau chwyldro ym myd barddoniaeth Gymraeg, y naill yn ymwneud â ffurf ei gerdd a'r llall yn ymwneud â'i mater'.<sup>14</sup> Cynigir yn y golygiad hwn 134 cywydd y bernir eu bod yn waith dilys Dafydd ap Gwilym.

Er bod y mesur yn ei hanfod yn un syml cynigiai bosibiliadau di-ben-draw i'r sawl a ddewisai ei arfer. Daw tri dull i'r amlwg yn y canu. Yn y lle cyntaf gwneir defnydd

<sup>8</sup> 50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym, 13.

<sup>9</sup> R Geraint Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym* (Caernarfon, 1987), 27.

<sup>10</sup> *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, 290.

<sup>11</sup> Ni thrafodir yma grefft dechnegol yr awdlau a'r englynion. Rhoes T D Crawford sylw i'r rhain, gw. 'The englynion of Dafydd ap Gwilym', EC 22 (1985), 235–85; *id.*, 'The *Toddaid* and *Gwawdodyn Byr* in the poetry of Dafydd ap Gwilym', EC 27 (1990), 301–36. Bydd angen adolygu ei sylwadau yng ngoleuni'r golygiad newydd hwn.

<sup>12</sup> Gw. 31.31.

<sup>13</sup> Trafodir y rhain isod.

<sup>14</sup> R Geraint Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym*, 22.

helaeth o dorymadroddi, sef estyn y frawddeg dros fwy nag un cwpled, dull y perthyn 'camp rethregol fawr' iddo.<sup>15</sup> Disgrifir yr arddull hwn yn fynych yn arddull sangiadol am fod ymadroddion nad ydynt yn perthyn i'r brif frawddeg yn cael eu hychwanegu ati. Cymwynas ymarferol y sangiadau yw caniatáu i'r bardd ateb gofynion technegol y gynghanedd a'r mesur. Ar yr un pryd y mae'r sangiadau yn cyfoethogi'r farddoniaeth yn ddirfawr am eu bod yn ychwanegu haenau niferus o ystyron at y datganiadau uniongyrchol. Gallant ategu neu danseilio'r datganiadau hynny ac yn yr un modd gallant gyfleu ymateb i'r hyn a gofnodir; er y gall yr ymateb hwnnw yn ei dro fod yn gyson â chywair y cywydd ran fynychaf cyfleu golwg wrthgyferbyniol a wneir. Yn fynych bydd sangiadau sy'n cyfleu twyll ac anwadalwch y gariadferch yn gyfeiliant i ddisgrifiadau canmoliaethus ohoni; dro arall caniateir i'r bardd gyfosod llawenydd a gobaith ar y naill law a siom a methiant ar y llaw arall.<sup>16</sup> Gwedda'i'r arddull hwn pan ddewisai'r bardd gofnodi ei anturiaethau carwriaethol mewn cywyddau naratif megis 'Y Niwl':

Doe Ddifiau, dydd i yfed,  
Da fu'm gael, dyfu ym ged,  
Coel fawrddysg, cul wyf erddi,  
Cyfa serch, y cefais i  
Gwrs glwysgainc goris glasgoed  
Gyda merch, gadai ym oed. (57.1–6)

Gall rhai o'r sangiadau ymylu ar fod yn eiriau llanw a barnai Thomas Parry fod ambell sangiad o'r fath yn 'Y Fiaren'.<sup>17</sup> Ond efallai fod y bardd yn elwa arnynt serch hynny. Ceir yma groestynnu paradocsaidd rhwng y dull torymadroddol hamddenol sy'n estyn y frawddeg dros bedair llinell ar y naill law a'r ffaith a gofnodir, sef *Cefais ... gwymp ... yn esgud* ar y llaw arall.

Cefais, tramgwyddais, trwm gawdd,  
Gwymp yno, rhuglgamp anawdd,  
Ar ael y glyn, eryl glud,  
Yn wysg fy mhen yn esgud. (56.45–8)

Estynnir y digwyddiad sydyn ac ymatelir rhag datgelu'r canlyniadau yma fel y gwneir ar achlysur arall yn 'Trafferth mewn Tafarn':

Trewais, drwg fydd tra awydd,  
Lle y'm rhoed, heb un llam rhwydd,  
Mynych dwyll amwyll ymwrdd,  
Fy nhalcen wrth ben y bwrdd... (73.35–8)

Yn ail gwneir defnydd helaeth o'r cwpled. Gan fod yr uned fydryddol yn un fer bydd y mynegiant yn fynych yn gryno ac uniongyrchol er na ddigwydd hynny bob tro. Bydd

<sup>15</sup> GDG xcii.

<sup>16</sup> Gw. yr enghreifftiau a ddyfynnir gan Gwyn Thomas yn *Dafydd ap Gwilym: gŵr wrth gerdd* (Aberystwyth, 2003), 33–5.

<sup>17</sup> Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd* 133 (1978), 75.

cwpledi Dafydd ap Gwilym, fodd bynnag, yn fynych yn gymhleth eu gwead am eu bod yn cynnwys sangiad neu sangiadau. Gwnaed defnydd helaeth o'r dull cwpledol wrth ddisgrifio'r llateion a fu'n gweithredu ar ran y bardd neu wrth ddisgrifio'r elfennau hynny a rwystrodd y bardd rhag cwrdd â'i gariadferch. Daw'r llinellau a ganlyn sy'n enghreifftio arddull cwpledol y bardd o'r cywydd 'Siom':

Treuliais dalm, trwy loes dylun,  
O gerdd dda wrth garu'r ddyn.  
Treuliais wrth ofer glêr glân  
Fodrwyau—gwae fi druan!  
Traws eirwgaen wedd tros argae,  
Treuliais a gefais o gae.  
Treuliais, nid fal gŵr trylwyn,  
Tlysau o'r mau er ei mwyn.  
Treiglais, gweais yn gywir,  
Defyrn gwin, Duw a farn gwir.  
Treiglais hefyd, bywyd bas,  
Defyrn meddgyrn gormodgas. (107.9–20)

Dro arall crynhoir yr uned ystyr o fewn cwmpas saith sillaf y llinell a dyma'r trydydd dull a welir ar waith. Daw'r dilyniant a ganlyn o'r 'Cywydd Mawl i Ifor Hael':

Hyd yr ymdaith dyn eithaf,  
Hyd y try, hwyl hy, haul haf,  
Hyd yr hëir y gwenith,  
A hyd y gwlych hoywdo gwlyth,  
Hyd y sych gwynt, hynt hynhiaw,  
A hyd y gwlych hoywdeg law,  
Hyd y gwyl golwg digust,  
Hydr yw, a hyd y clyw clust,  
Hyd y mae iaith Gymræg,  
A hyd y tyf hadau teg,  
Hardd Ifor, hoywryw ddefod,  
Hir dy gledd, hëir dy glod. (13.27–38)

Yn y lle cyntaf ymddengys fod Thomas Parry yn hwyrfrydig i gydnabod fod Dafydd ap Gwilym yn effro i holl bosibiliadau'r mesur.<sup>18</sup> Dangosodd fod y bardd yn canu mewn dull torymadroddol ond sylwadau D J Bowen ar arddull Dafydd ap Gwilym a'i hargyhoeddodd fod i'r cwpled, yntau, le canolog yn y canu. Dangosodd D J Bowen ymhellach fod amryfal ddulliau yn cael eu cyfod yn yr un cywydd a bod i bob dull ei briod swyddogaeth.<sup>19</sup> Y mae'r cerddi rhwystr yn un dosbarth lle y gwelir cyfuno'r amryfal ddulliau, a dyfynnwyd uchod agoriad 'Y Niwl' sy'n perthyn i'r *genre* hwn.

<sup>18</sup> GDG xc–xciii.

<sup>19</sup> Gweler yn fwyaf arbennig D J Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a datblygiad y cywydd', LIC 8 (1964–5), 1–32. Cydnabu Thomas Parry gywirdeb sylwadau D J Bowen, gw. 'Dafydd ap Gwilym's poetic craft', 37.

Amlygodd Dafydd ap Gwilym ei feistrolaeth trwy lunio dau gywydd unodl,<sup>20</sup> ond yr addurn a gymeradwyid fwyaf gan y bardd a'i gyfoeswyr oedd y cymeriad llythrennol (ailadrodd yr un gytsain ar ddechrau dwy fraich y cwpled) a'r cymeriad cynganeddol (cynganeddu'r geiriau ar ddechrau'r ddwy fraich). Cyfeiriwyd eisoes at y defnydd a wnaeth y bardd o'r cymeriad llythrennol yn ei awdlau, a dewisodd efelychu ei gamp trwy lunio cywyddau cyfain megis 'Dagrau Serch' (ar y cymeriad *D*) a 'Cystudd y Bardd' (ar y cymeriad *H*) ar yr un cymeriad. Rhan fynychaf, fodd bynnag, bodlonid ar gynnal y cymeriad dros gwpled neu ddilyniant o sawl cwpled fel y gwneir yn llinellau'r ddau gywydd, 'Y Niwl' a 'Siom', a ddyfynnwyd uchod.<sup>21</sup> Cymeriad geiriol, sef ailadrodd yr un gair, a welir yn y llinellau o'r 'Cywydd Mawl i Ifor Hael' a ddyfynnwyd.

Swyddogaeth y cymeriadau, a'r cymeriad llythrennol yn fwyaf arbennig gan mai hwnnw a arferir helaethaf yn y canu, yw creu undod a phwysleisio. Y mae'r dilyniant *di-* yn y farwnad i Fadog Benfras yn galw sylw at y cyfan a gollwyd o ganlyniad i farwolaeth y prydydd o Faelor:

Diaml aur, mâl a dalai,  
Diarail fydd manddail Mai;  
Dihoywfro beirdd dihyfryd,  
Digywydd y bydd y byd;  
Digerdd eos befrdlos bach,  
Dwf acses Eigr difocsach;  
Dibarch fydd bedw, nis cedwyn',  
Da beth oedd, diobaith ynn. (20.35–42)

Arfer y bardd yn y cywyddau sy'n disgrifio'r llateion a'r rhwystrau yw rhestru nodweddion neu gyneddfau'r gwrthrych dan sylw, boed hynny mewn dull uniongyrchol neu mewn dull trosiadol. Yn fynych pwysleisir y nodwedd trwy ei lleoli mewn man amlwg ar ddechrau'r llinell a bydd y cymeriad llythrennol yn ychwanegu at y pwyslais hwnnw. Fel hyn y disgrifir y rhugl groen:

Cod ar ben ffon yn sonio,  
Cloch sain o grynfaen a gro;  
Crwth cerrig Seisnig yn sôn  
Crynedig mewn croen eidion;  
Cawell teirmil o chwilod,  
Callor dygyfor, du god;  
Cadwades gwaun, cydoes gwellt,  
Groenddu feichiog o grinddellt. (62.27–34)

<sup>20</sup> 'Mis Mai' (cerdd 32) ac 'Yr Haf' (cerdd 34).

<sup>21</sup> Newidiodd Thomas Parry drefn y llinellau yn 'Niwbwrch' er mwyn dwyn ynghyd y cwpledi a oedd yn dechrau â'r un cymeriad ond ni ddangosodd iddo wneud hynny ac ni ddangosodd ychwaith fod trefn y cwpledi yn gwbl gyson yn y llawysgrifau, gw. cerdd 18 a GDG cerdd 134.

Bernir na fyddai llafariad ar ddechrau'r llinell yn torri ar ddilyniant ar yr un cymeriad.<sup>22</sup> Ond gall dechrau llafarog ein rhwystro rhag gweld y cymeriad a'i werthfawrogi. Ystyrier y ddau gwpled hyn yng nghywydd 'Y Deildy'. Ar yr olwg gyntaf ymddengys mai cymeriad llafarog sydd yn y cyntaf a chymeriad llythrennol yn yr ail, ond o edrych yn fanylach gwelir mai *D* yw'r gytsain gyntaf a glywir yn nwy fraich y cwpled cyntaf ac o'r herwydd gellid ystyried bod y ddau gwpled wedi eu clymu â'r un cymeriad:

O daw meinwar, fy nghariad,  
I dŷ dail a wnaeth Duw Dad,  
Dyhuddiant fydd y gwŷdd gwiw,  
Dihuddygl o dŷ heddiw. (37.9–12)

Gellid cyfeirio at enghreifftiau eraill o'r cymeriad llythrennol 'cudd':

Ei serch a roes merch i mi,  
Seren cylch Nantyseri. (120.1–2)

Y Traeth Mawr, cludfawr air clod,  
Treia, gad fyned trwod. (129.19–20)

O frys haf a fwriais i  
I fry parth â'r fro eiddi. (146.9–10)

Un cywydd ymhlith nifer sy'n cynnwys yr addurn hwn yw 'Anwadalrwydd'. Ni fodlonir ar yr addurn dechreuol y tro hwn. Ceir cyflythrennu cymhleth yn y drydedd adran ac y mae dechrau pob llinell fel pe bai yn cynganeddu ond eto cyfatebiaeth anghyflawn sydd i'w chanfod yn hytrach nag un gyflawn a rheolaidd. Ymdrechion seithug y bardd i ddofi'r ferch y buasai yn ei meithrin yw thema'r cywydd ac ar un ystyr tystia'r addurn yntau i'w ymdrechion aflwyddiannus; ni lwyddodd i wastrodi'r cytseiniaid anystywallt ac anhrefnus mwy nag y llwyddodd i reoli'r ferch anniolchgar:

Astud air, ys doud erof,  
Ystid goch, os da dy gof,  
Boned yr hydd gelltydd gil,  
Ban oeddud gynt banw eiddil.  
Iwrch drythyll, hely, deilgyll hawl,  
Erchwys hydr iyrchus hudawl.  
Rhywyllt ei ruthr mewn rhewynt,  
Rhyfain hydd rhy fuan hynt.  
Rhydain iwrch rhedai yn lâl,  
Rhy dinwyn lwdn rhedynwal. (76.13–22)

Troir yn nesaf at gynganeddion y bardd. Dangosodd Thomas Parry mai peth pur anghyffredin oedd taro ar linell wallus yng nghywyddau dilys Dafydd ap Gwilym: '[Ni] welir odid fyth wall mewn llinell y bwriadwyd i gynganedd fod ynddi (ar wahân i

<sup>22</sup> CD 290–3.

yhydlig bach o enghreifftiau o fai adnabyddus fel camosodiad)',<sup>23</sup> a chafwyd ateg i hyn gan Beredur Lynch ar sail ei astudiaeth o drigain cywydd a ddiogelwyd mewn pedair llawysgrif o'r bymthegfed ganrif. 'Y mae'n destun rhyfeddod mewn gwirionedd fod yn y testunau hyn gyn lleied o enghreifftiau o'r beiau gwaharddedig'.<sup>24</sup> Sylwyd hefyd fod patrwm y mesur a hyd y llinellau yn cael eu parchu yn gyson. Nid yw hynny yn gyfystyr â dweud nad oes unrhyw ddiffygion technegol i'w gweld a phriodol nodi y gellid canfod enghreifftiau o'r holl wallau gwaharddedig (fel y disgrifir hwy bellach) yn y cerddi sydd yn y golygiad newydd hwn er nad yw eu nifer yn fawr.

*twyll gynghanedd*

Cad daradr, ceudod tirion (20.25)  
Mynych iawn er ei mwyn hi (96.17)

*crych a llyfn*

Nis bawdd dwfr, llwfr llifeiriaint (50.29)

*caled a meddal*

Dir ennyd cyn torri annog (63.53)

*camosodiad*

Gefel unwedd gylfinwaed (60.40)  
Llym arf grym, llyma f'aur gred (71.33)

*cyghanedd lusg yn ail fraich y cwpled*

Y cordder gwâl ei galon (130.44 ac o bosibl 130.4 yn yr un cywydd)

Y mae Thomas Parry yn crybwyll 'cyntefigrwydd cynganeddol' y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>25</sup> Sylwodd fel y byddai'r beirdd yn llunio llinellau lle y byddai'r gynghanedd a'r synnwyr yn croestynnu; byddent yn cynganeddu geiriau â'i gilydd yn fynych a gwedd arall ar y 'cyntefigrwydd' hwn fyddai caniatáu i'r odl ddisgyn ar air gwan. Hawdd fyddai enghreifftio'r tair nodwedd hyn drachefn:

*y gynghanedd (//) a'r synnwyr (/) yn croestynnu*

Pa dwrw // yw hwn, / pedeiroch (10.9)  
Rhyw duded // bys, / rhoed iddaw (19.19)  
Caru // y bûm, / cyd curiwyf (109.1)<sup>26</sup>

*cynganeddu geiriau*

Ufudd a da ei ofeg,

<sup>23</sup> Gw. GDG xcvi.

<sup>24</sup> Peredur I Lynch, 'Cynghanedd cywyddau Dafydd ap Gwilym: tystiolaeth y llawysgrifau cynnar', *Cyfoeth y Testun Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel *et al.* (Caerdydd, 2003), 124.

<sup>25</sup> GDG xciv.

<sup>26</sup> 'There are no more than ten or a dozen such lines in all Dafydd's poems, which is an indication of how well *cyghanedd* was being integrated with the new *cywydd* metre, even at this early date', gw. Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym's poetic craft', 39. Buasai Thomas Parry yn gywirach pe buasai wedi awgrymu bod oddeutu cant o linellau o'r math hwn yn y cywyddau.

Ofer dyn wrth lfor deg...  
 A saethu rhygeirw sythynt  
 A bwrw gweilch i wybr a gwynt. (14.31–2, 37–8)

*yr odl yn disgyn ar air gwan*

Ai ar feddwl cerddgar cain (120.32)  
 Tegach oedd honno no neb (124.56)

Diau mai un o nodweddion mwyaf cyffredin y bedwaredd ganrif ar ddeg yw'r rhyddid a gymerodd y beirdd i lunio cynganeddion llusg a sain anghyflawn ac nid yw Dafydd ap Gwilym yn eithriad. Yn achos y gynghanedd lusg nid atebir bob tro yr holl gytseiniaid yn y ddeuair sy'n odli:

Parodd o'i **ben awengerdd** (22.21)  
 Peraist ym **fun ar ungair** (43.7)  
 I hudo **beirdd penceirddryw** (114.23)  
 Llwdn anghenfil **gwegilgrach** (114.29)<sup>27</sup>

Yn yr un modd nid atebir yr holl gytseiniaid o dan yr acen yn y gynghanedd sain anghytbwys ddisgynedig. Weithiau bydd y cytseiniaid o dan yr acen yn gwbl anghymarus. Nid arferir y gynghanedd hon yn fynych iawn ond y mae cyfran helaeth o'r llinellau yn rhai anghyflawn:

Minnau a ddof, **cof cawddsyth** (42.7)  
 Ni rydd Eiddig **ddig ddygnbwyll** (48.27)  
 A meistrawl ar **wawl wiwgamp** (110.25)  
 Dibwyll i fardd **hardd heirddryw** (124.15)  
 Ni wÿs na lliw, **gwiw gwawdradd** (127.19)

Ar brydiau ymddengys fod y bardd yn barod i elwa ar yr un rhyddid wrth lunio mathau eraill o gynganeddion sain ac wrth lunio cynganeddion cytseinol:

Y gynghanedd sain:

Gwaith da rhwydd**faith diryfedd** (126.8)  
 Pa anaf **arnaf amgen** (63.41)

Cynganeddion cytseinol:

**Amarch** i'w chorpws naw**mlwydd** (67.43)  
 Oerfel iddo os **myfy** (142.37)  
 Lled**wedd**w, rheidus, anllad**fegr** (114.31)

Geilw John Morris-Jones y cynganeddion sain uchod yn gynganeddion pengoll ac awgryma fod 'llawer iawn o enghreifftiau' yn y canu.<sup>28</sup> Hwylusach fyddai eu galw yn llinellau sy'n cynnwys cyfatebiaeth anghyflawn er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt a

<sup>27</sup> Ar y gynghanedd lusg bengoll, gw. CD 175. Ni wahaniaethir rhwng y lusg reolaidd a'r lusg bengoll am fod y ddwy yn gymeradwy yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

<sup>28</sup> CD 187–8.



math arall o gynghanedd sain bengoll. Yn y math cyntaf bydd y gynghanedd yn cwmpasu'r llinell yn ei chrynswth. Yn yr ail fath ceir cynghanedd sain sy'n estyn dros bedair, pump neu chwe sillaf ac ni pherthyn y cytseiniaid sydd yn y sillafau sy'n weddill i'r gynghanedd ac ni chyfrannant mewn unrhyw fodd ati. Barnai John Morris-Jones mai yn anfynych y digwydd yr ail fath yn y cywyddau ond efallai fod lle ar sail y golygiad newydd i amodi ei safbwynt.

Heirdd feirdd, f'eurddyn, [diledfeirw (37.1)  
 Y caffo, tro treigl [gochfrych (53.57)  
 Briwer, curer corf [lwydwydd (110.21)  
 Na oddef ef, wyf [ddicllawn (123.25)

Lluniwyd llinellau croes gan ddilyn yr un egwyddor:<sup>29</sup>

Talm o'r tylwyth [a'm diaur (71.49)  
 I fwrw am forwyn [wisgra (96.25)  
 Dilaes y deily [heb ystryw (124.29)  
 Mawr yw miragl [ei gwynbryd (139.17)

Y mae'r gyfatebiaeth gytseiniol yn ysgafnach yn y draws nag yn y groes a hawdd fyddai tybio nad oes cynghanedd ar gyfyl rhai o'r llinellau sy'n cynnwys cynghanedd draws bengoll:

Gwell ymhell, ger gwayw [llifnwyf (110.27)

Yn unol â'r arfer gwelir bod Dafydd yn y llinellau hyn yn anwybyddu'r sillaf neu'r sillafau olaf. Yn achlysurol anwybyddir y sillaf ar ddechrau'r llinell gan ddilyn egwyddor y cynganeddion pengoll y cyfeiriwyd atynt. Pen blaen y llinellau sy'n bengoll yn yr enghreifftiau hyn:

Ond] galw ei thegwch golau (51.25)  
 Mewn] tywyllwg tew allan (59.12)  
 Dawn ym ] dy fod yn fwdwl (66.9)  
 Nid] gem, oferedd gymwyll (105.17)  
 Ond na] ddlyud ddilëu (121.5)  
 Rhwng] y gweundir a'r gwyndwn (151.2)

Geilw John Morris-Jones yr uchod yn llinellau croes gwreiddgoll<sup>30</sup> ond nid yw'r enw yn gwbl addas am ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng llinellau fel y rhain a llinellau rheolaidd sy'n cynnwys *n* neu *r* wreiddgoll yn unig. Ar un ystyr haws fyddai disgrifio'r rhain drachefn yn llinellau pengoll ond gan nodi mai dechrau yn hytrach na diwedd y llinell a anwybyddir at ddibenion y gynghanedd.

<sup>29</sup> Gw. CD 186–7.

<sup>30</sup> CD 185–6.

Math arall o gynghanedd y deuir ar ei thraws yng nghanu Dafydd ap Gwilym yw'r gynghanedd braidd gyffwrdd.<sup>31</sup> Yn wahanol i'r gynghanedd bengoll lle yr anwybyddir naill ai dechrau neu ddiwedd y llinell, anwybyddir dau ben y llinell y tro hwn a chynganeddir dau air yng nghanol y llinell, a'r naill fel arfer yn dilyn y llall. Digwydd y cyntaf ran fynychaf yn safle'r orffwysfa:

Gwnaeth] fraw, frychleidr [anghyfrwys (53.27)  
Ni chaffwyf] dda gan Dduw [fry (117.27)  
Cair] gair o garu'n [ddiffwrwyth (120.49)  
Hir yw'r] cylch, cylchwy [didryf (126.25)

Er bod Thomas Parry, fel y gwelwyd, yn cyfeirio at gywirdeb technegol llinellau Dafydd ap Gwilym rhaid ystyried ei sylw yng ngoleuni amllder y llinellau pengoll a braidd gyffwrdd, er bod angen cofio hefyd, fel y rhybuddiodd Eurys Rolant: 'ni ellid cyfrif llinell felly [sef llinell bengoll] yn ddigynghanedd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg'.<sup>32</sup> Peth arall y mae angen ei gadw mewn cof yw fod degau o linellau nad ydynt yn cynnwys cynghanedd o gwbl yn y canu. Ym mraich gyntaf y cwpled y digwydd y rhain bron yn ddieithriad ac yno hefyd y digwydd y llinellau pengoll a braidd gyffwrdd. Nid oedd Thomas Parry yn gwbl gywir, fodd bynnag, pan honnodd na fydd ail fraich y cwpled byth yn ddigynghanedd.<sup>33</sup> Cydnabu ef ei hun nad oedd cynghanedd yn llinell olaf 'Y Cleddyf'<sup>34</sup> a cheir cynghanedd bengoll a'r dechrau y tu allan i gwmpas y gynghanedd ar achlysur arall.<sup>35</sup>

*Kerd anosparthus yw*, medd testun y gramadeg barddol a ddiogelwyd yn llawysgrif Llansteffan 3 am grefft y clerwr.<sup>36</sup> Ar un ystyr tasg seithug fyddai ceisio dadansoddi a chfundrefnu'r llinellau digynghanedd, ac ar sail barn oddrychol yn hytrach na gwrthrychol y cynigir mewn ambell achos bod un llinell yn ddigynghanedd ac un arall yn cynnwys cynghanedd bengoll (gall y ffin fod yn bur annelwig yn enwedig yn achos y llinellau traws pengoll). Wrth edrych ar y llinellau digynghanedd, fodd bynnag, gwelir bod Dafydd ap Gwilym ar fwy nag un achlysur yn llunio llinellau lle y ceir tri gair a dechrau'r tri yn cyflythrennu. Y mae'r rhain yn wahanol i'r llinellau braidd gyffwrdd lle y ceir dau air sy'n digwydd nesaf at ei gilydd yn cynganeddu (ar un ystyr gellid eu galw yn gynganeddion braidd gyffwrdd estynedig). Y maent yn wahanol hefyd i'r gynghanedd bengoll yn gymaint â bod yr addurn yn cwmpasu'r llinell gyfan. Er nad oes cynghanedd reolaidd yn y rhain y mae iddynt hwythau eu hapêl soniarus.

Ni myn Madog, mydr doethlef (19.31)<sup>37</sup>  
Nid gwaeth gorwedd dan gronglwyd (37.13)  
Â bollt benfras a bwa (52.21)  
Neud gwedy gwydn o gythrudd (58.9)  
Godrum gafr o'r un gyfrith (63.23)<sup>38</sup>

<sup>31</sup> CD 184–5.

<sup>32</sup> Eurys Rolant, "Morfudd fel yr Haul", *Y Traethodydd* 133 (1978), 97.

<sup>33</sup> Gw. Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym's poetic craft', 36.

<sup>34</sup> Gw. GDG 143.52 a t. 547, a cf. cerdd 71.52 yn y golygiad hwn.

<sup>35</sup> Gw. 151.2 *Rhwng] y gweundir a'r gwyndwn* a cf. GDG 144.2. Nid oes nodyn ar y llinell yn *ib.* 547.

<sup>36</sup> GP 35.

<sup>37</sup> Gallai hon fod yn gynghanedd braidd gyffwrdd ac ynddi acen ddyrchafedig.

Nis gorug gof ei guraw (127.17)<sup>39</sup>  
O dra disgwyl, dysgiad certh (137.41)<sup>40</sup>

Ceir ymhlith y llinellau digynghanedd linellau y gellid eu hystyried yn gynganeddion llusg hefyd ond mai lled odl neu fath o odl broest yn hytrach nag odl gyflawn sydd ynddynt:

Plygu rhag llid yr ydwyf (137.1)  
Digio'dd wyf am liw ewyn (50.1)  
Ac ni chaid o'i chyfoedi (108.41)  
Ac nis gwybydd dyn eiddig (143.33)  
Ysgwier gwyw ei ddwywisg (118.33)  
Doe yr oeddwn ar giniaw (15.3)  
Myn fy nghred, pe mynegwn. (63.51)<sup>41</sup>

Er bod yn y cywyddau lawer o linellau anghyflawn neu afreolaidd yn ôl safonau oes ddiweddarach perthyn cryn grefft i lawer o'r llinellau rheolaidd. Er mai yn anfyfych y digwydd y sain deirodl,

Y daw glaw yn ôl praw prudd (100.33)

ac er mai ar un enghraifft o gynghanedd sain ddwbl y sylwodd Thomas Parry,

Coelfain brain brwydr, treiglgrwydr trin (71.27)<sup>42</sup>

mwy cyffredin yw'r llinellau sy'n cynnwys cynghanedd sain o gyswllt neu sain o gyswllt ewinog:

*sain o gyswllt*

Eurdyrch a chynnyrch annwyl (114.6)  
Yw gloywon olygon Eigr (131.22)  
Fflam fo'r drych mingam iawngas (132.32)

*sain o gyswllt ewinog*

N'ad y twrch uriad drachefn (116.36)  
Darfod a wna tafod dyn (119.10)  
Gildiad, nid chwitafad hallt (126.5)

Ar y llaw arall pwysleisiodd Thomas Parry nad oedd y gynghanedd groes o gyswllt yn un a arferid gan Ddafydd,<sup>43</sup> a chadarnhaodd Peredur Lynch nad oedd yr un

<sup>38</sup> Gellid galw hon yn llinell bengoll a dwy sillaf gyntaf y llinell wedi eu hanwybyddu at ddibenion y gynghanedd.

<sup>39</sup> Ond gellid cyfrif hon yn llinell draws bengoll nad atebir ynddi'r cytseiniaid yn y sillaf gyntaf.

<sup>40</sup> Nid yw'r ailadrodd cyn amlyced yn y llinell hon.

<sup>41</sup> Odl Wyddelig sydd yn y llinell hon.

<sup>42</sup> Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym's poetic craft', 39.

<sup>43</sup> GDG xcvi.

gynganedd groes o gyswllt yn y corff sylweddol o gywyddau (cyfanswm o 2426 llinell) a archwiliodd ef. Barnai fod hon yn 'ffaith eithriadol o arwyddocaol'.<sup>44</sup>

Arfer Dafydd ap Gwilym oedd cynnwys cynganedd yn y rhan fwyaf o'i linellau. Anodd dirnad erbyn hyn pa mor ymwybodol oedd cynulleidfa'r bardd o gywirdeb y llinellau y clywent eu datgan; yn wahanol i ddarllenwyr y golygiad hwn ni châi gyfle i fyfyrion uwchben testun ysgrifenedig ac ni ddarperid dadansoddiadau yn seiliedig ar arferion cynganeddol y bardd ar ei chyfer. Cyfeiriodd R Geraint Gruffydd at 'hyfrydwch y miwsig geiriol',<sup>45</sup> a gellir bod yn sicr fod effaith gyfansawdd y cyflythrennu a'r cymeriadau yngyd â'r odlau mewnol a therfynol yn apelio at y gynulleidfa yn yr un modd ag y câi Cymry cyffredin y ddeunawfed ganrif eu boddio gan addurniadau tebyg yn y baledi cywrain y lluniwyd y fath dorreth ohonynt gan feirdd megis Twm o'r Nant a Huw Jones o Langwm. Yn yr un modd tasg ofer yw ceisio damcaniaethu am y modd y syniai Dafydd ap Gwilym am y gynganedd ac am ei gymhellion wrth ddefnyddio cynganeddion penodol neu wrth iddo ymwrthod yn llwyr â'r patrymau rheolaidd. Hawdd y gallai'r darllenydd cyfoes weld arwyddocâd yn y ffaith fod pedair cynganedd sain gadwynog yn y cywydd 'Breichiau Morfudd' (y nifer mwyaf mewn unrhyw gywydd)<sup>46</sup> a bod eu nifer yn ategu'r pwyslais sydd yn y gerdd ar ddal a rhwymo a phlethu; y mae breichiau'r ferch yn *llathr ieuo'r bardd â Daliad cwlm o gariad coeth*.<sup>47</sup> Nid yw'n dilyn fod y patrwm yn un a fwriadwyd. Ar y llaw arall dichon nad damwain yw agoriad crefftus 'Merch yn Edliw ei Lyfrdra' lle y cyferchir *Yr adlaesferch, wawr dlofain*. Cynnwys yr wyth llinell agoriadol ddilyniant o saith cynganedd groes ac ychwanega'r geiriau cyfansawdd at y gamp. Annog y ferch i ymwrthod â'r milwr a derbyn y bardd yn garwr yw thema'r gerdd. Y mae'r agoriad o'r herwydd yn gyfrwng argyhoeddi'r ferch fod y prydydd sy'n ceisio ennill ei ffafr yn feistr ar ei grefft. Ar sail dadansoddiad o'r cynganeddion yn 'Anrhegion Dafydd, Madog ac lorwerth' gellid cynnig bod cyferbyniad rhwng dau ddilyniant o wyth llinell yn rhan gyntaf y cywydd. Ar yr olwg gyntaf awgryma'r cymeriad llythrennol fod y naill lawn mor grefftus â'r llall ond arall yw tystiolaeth y cynganeddion. Yn y cyntaf testun llawenydd i Ddafydd ap Gwilym yw'r cae bedw a gyflwynodd ei gariadferch yn anrheg iddo, a dethlir yr achlysur mewn dilyniant sy'n cynnwys saith llinell o gynganedd groes ac un gynganedd sain i gloi. Gwell gan lorwerth ab y Cyriog, medd Dafydd yn yr adran sy'n dilyn, rodd o aur yn dâl am ei awen. Dychenir ei safbwynt ac ansawdd ei awen mewn dilyniant o wyth llinell sydd yn llawer llai crefftus; cynnwys pedair llinell o blith yr wyth gynganedd draws. Ensynnir nid yn unig nad yw lorwerth yn serchog ond hefyd na pherthyn fawr o hynodrwydd i'w awen. Eto nid annichon mai'r sawl a gafodd y cyfle i ddadansoddi cynganeddion y cywydd a ymatebai fel hyn.

<sup>44</sup> Gw. Peredur I Lynch, 'Cynganedd cywyddau Dafydd ap Gwilym', 122–3. Gellid cyfrif sawl llinell sy'n cynnwys *n* neu *r* wreiddgoll yn gynganeddion croes o gyswllt, e.e., 143.22 *Neu i'r dafarn, wr diful*; 108.32 *Yw'r bastynwyr, byst annwyd*. Ni ddigwydd hyn yn achos unrhyw gytsain arall.

<sup>45</sup> R Geraint Gruffydd, '*Athro pawb oedd*': *golwg ar Ddafydd ap Gwilym* (Llandybie, 1992).

<sup>46</sup> Yn y 'Pum Llyfr Cerddwriaeth' o waith Wiliam Cynwal (m. c. 1588) yr enwir y gynganedd sain gadwynog a'i diffinio am y tro cyntaf, gw. GP 121. Fe'i crybwyllir hefyd gan Siôn Dafydd Rhys yn llsgr. Llansteffan 55 lle y cofnodwyd ei destun yntau o'r Gramadeg, gw. *ib.*, 60.

<sup>47</sup> Gw. sylwadau Dafydd Johnston ar ddelweddaeth y cywydd yn *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005), 125.

Serch hynny nid tasg anodd fyddai rhestru llinellau unigol sydd yn cyfleu ac yn atgyfnerthu cynnwys neu gywair cerdd benodol. Dyma un arwydd o ddawn ddiameduol y bardd a'i hyfedrwydd cynganeddol, a gellid tybio y buasai'r gynulleidfa yn effro i ardrawiad llinellau o'r fath. Ystyrier y modd y cyniweirir amryfal synau yn y cywyddau. Cyflea symudiad y llinellau hyn a'u cytseiniaid caled sŵn tyllu dyfal y cyfflog wrth iddo chwilio am fwyd:

Treiddiai yn ffrom wrth domawg,  
Trwyddew tail a rhew yrhawg (53.45–6)

Sŵn o fath gwahanol a gyfleir yn y llinell nesaf sy'n perthyn i'r cywydd 'Lladrata Merch', sef sŵn teulu'r ferch a ladratawyd yn cysgu ac yn chwyrnu yn eu meddwdod. Y tro hwn ychwanega'r ddau air cyfansawdd at yr effaith:

Twrf eirthgrwydr, fal torf wrthgroch (70.15)

Rhyddid dilyffethair y gwynt yw'r elfen a bwysleisir yng nghywydd 'Y Gwynt' ond consurir ei sŵn yn ogystal mewn cwpledi fel y rhain:

Saethydd ar froydd eiry fry,  
Seithug eisingrug songry',  
Drycin yn ymefin môr,  
Drythyllfab ar draethellfor. (47.39–42)

Uniaethir y gwynt â'r gaeaf yn y cywydd 'Mis Mai a Mis Tachwedd' ac y mae sŵn garw a bygythiol yn hydreiddio'r disgrifiad o'r mis:

A dwyn sôn mewn afonydd,  
A llidio a duo dydd. (33.39–40)

Y mae'r trwst a grewyd wrth i Ddafydd gyrchu gwely'r ferch yn un o'i gywyddau mwyaf adnabyddus, 'Trafferth mewn Tafarn' yn ddigon i godi'r meirw, a llwydda'r cytseiniaid caled *st* yng nghwpled olaf y dyfyniad isod ynghyd â'r sillaf ysgafn a ailadroddir mewn tri gair yn olynol yn y llinell olaf i gyfleu hynny mewn dull pwrpasol iawn:

Briwais, ni neidiais yn iach,  
Y grimog, a gwae'r omach,  
Wrth ystlys, ar waith ostler,  
Ystôl groch ffôl, goruwch ffêr. (73.31–4)

Symudir yn rhan nesaf y drafodaeth oddi wrth y cynganeddion unigol at y patrymau a ddaw i'r amlwg. Nid y lleiaf o gymwynasau Thomas Parry oedd ei sylwadau arloesol ar arferion cynganeddol Dafydd ap Gwilym a'i gyd-brydyddion, a mynych y dyfynnwyd ei ddyfarniad: 'A siarad yn gyffredinol gellir dweud, os yw cyfartaledd y cynganeddion Sain mewn cywydd arbennig yn is na 25 y cant, yna nid i'r 14 g. y

mae'n perthyn'.<sup>48</sup> Dangosodd hefyd fod y gynghanedd sain yn digwydd yn 36% o linellau cywyddau cyfoeswyr y bardd. Yr oedd mynychder y gynghanedd sain yn un o'r meini prawf a ddefnyddiai Thomas Parry wrth iddo wahaniaethu rhwng cerddi Dafydd ap Gwilym ar y naill law a'r cerddi a briodolwyd iddo ar gam ar y llaw arall. O'r herwydd bu tuedd i ystyried cynganeddion y bardd a dilysrwydd y cerddi yn ddau bwnc annatod. Dangosodd T D Crawford a droes at y cyfrifiadur er mwyn dadansoddi holl gynganeddion y bardd,<sup>49</sup> a Pheredur Lynch a aeth ati i ddadansoddi cynganeddion y bardd yn y cywyddau a ddiogelwyd yn y llawysgrifau cynharaf,<sup>50</sup> fod y darlun yn llawer mwy cymhleth nag a awgrymwyd gan Thomas Parry. Er iddynt drafod arferion cynganeddol y bardd o safbwyntiau gwahanol sylweddolodd y ddau fod cryn amrywio rhwng cywydd a chywydd, ac ategir eu casgliad hwy gan y golygiad newydd hwn o waith Dafydd ap Gwilym. Gwelir mewn atodiad ganrannau'r cynganeddion mewn 134 cywydd y bernir eu bod yn waith dilys y bardd a dangosir rhychwant y canrannau mewn pedwar tabl ar sail mynychder i) y cynganeddion cytseiniol (y groes a'r draws ynghyd) ii) y gynghanedd sain iii) y gynghanedd lusg iv) y llinellau hynny y daethpwyd i'w cyfrif maes o law yn rhai afreolaidd.

Crynoir yma'r ystadegau ar gyfer pob dosbarth.

i) y cynganeddion cytseiniol<sup>51</sup>

nifer y cywyddau sy'n cynnwys hyd at 30% o linellau cytseiniol	5
31–40%	18
41–50%	40
51–60%	47
61–70%	17
71–80%	5
80%–	2

'Merch Ragorol' sy'n cynnwys y ganran isaf, sef 15%, ond cynnwys dau o'r cywyddau, sef 'Llw Gau' ac 'Esgeuluso'r Bardd', ragor na 80% o linellau cytseiniol. Gwelir bod 65% o'r cywyddau, sef dau o bob tri, yn cynnwys rhwng 41% a 60% o linellau cytseiniol. Barnai Thomas Parry mai'r sain a'r lusg, dwy gynghanedd y mae'r odl yn rhan annatod ohonynt, a ddefnyddid yn bennaf gan Dafydd ap Gwilym<sup>52</sup> ond dengys y dadansoddiad hwn mai'r cynganeddion cytseiniol sydd yn y mwyafrif yn 71 o'r cywyddau; mewn 54 cywydd y mae'r cynganeddion odledig yn y mwyafrif a cheir bod y ddau fath yn gwbl gyfartal mewn naw cywydd.<sup>53</sup>

ii) y gynghanedd sain

<sup>48</sup> GDG xcvi–xcviii.

<sup>49</sup> Gw. T D Crawford, 'Cyfartaledd y gynghanedd sain yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym', *Ysgrifau Beirniadol* 12 (Dinbych, 1982), 131–42.

<sup>50</sup> Gw. Pheredur I Lynch, 'Cynghanedd cywyddau Dafydd ap Gwilym', 109–47.

<sup>51</sup> Barnwyd mai doethach cyfuno'r ystadegau ar gyfer y ddwy gynghanedd gytseiniol, y groes a'r draws, a hynny am fod modd cyfrif y llinellau hynny sy'n cynnwys *n* neu *r* wreiddgoll, er enghraifft, yn gynghanedd groes ac yn draws.

<sup>52</sup> 'Of the four types of *cynghanedd* the *sain* and the *llusg* predominate', gw. Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym's poetic craft', 39.

<sup>53</sup> Ategir felly gasgliad T D Crawford, gw. 'Cyfartaledd y gynghanedd sain yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym', 140.

nifer y cywyddau sy'n cynnwys hyd at 20% o linellau cytseiniol	14
21–30%	24
31–40%	62
41–50%	29
51–60%	5

Y cywydd 'Gwahanu' sy'n cynnwys y ganran isaf, sef 12%, ac fel y sylwodd T D Crawford a Pheredur Lynch, y mae sawl cywydd arall nad ydynt yn ateb prawf cynganeddol Thomas Parry. Yn ôl y dadansoddiad hwn cynnwys 19 o'r cywyddau lai na 25% o linellau sain, sef 14% o'r cyfanswm. Ar y llaw arall cynnwys wyth o'r cywyddau 50% neu ragor o linellau sain; digwydd y ganran uchaf, sef 54%, yn 'Y Ceiliog Bronfraith'. Sylwer bod bron i hanner y cywyddau yn cynnwys rhwng 31% a 40% o linellau sain. Yn unol ag arfer ei gyfoeswyr defnyddir y gynghanedd sain drosgl a'r sain gadwynog yn rheolaidd a chynhwyswyd y rhain ynghyd â'r sain lefn yn y canrannau.

### iii) y gynghanedd lusc

nifer y cywyddau nad ydynt yn cynnwys y gynghanedd lusc	7
–10%	79
11–20%	36
21–30%	12

Ni ddigwydd y gynghanedd hon mewn saith cywydd ond y mae canran y llinellau anghyflawn a digynghanedd yn uchel mewn pedwar cywydd o blith y saith, sef 36.5% yn 'Y Cwt Gwyddau', 23% yn 'Gwayw Serch', 22% yn 'Offeren y Llwyn', ac 21% yn 'Morfudd fel yr Haul'. Cynnwys 64% o'r cywyddau hyd at 10% o linellau llusc a chynnwys 82% o'r cywyddau hyd at 15% o linellau llusc. Yn y pegwn arall digwydd y gynghanedd hon yn 29% o linellau 'Y Mwdwl Gwair'. Yn yr olaf digwydd y gynghanedd lusc ym mraich gyntaf y pedwar cwpled agoriadol. O'r pedwar math y gynghanedd lusc a arferir leiaf ond y mae iddi le amlwg ddigon yn y llinellau agoriadol. Fe'i ceir yn llinell gyntaf un cywydd o bob pump.<sup>54</sup>

### iv) llinellau anghyflawn a llinellau digynghanedd<sup>55</sup>

nifer y cywyddau nad ydynt yn cynnwys llinellau afreolaidd	64
–10%	53
11–20%	6
21–30%	6
31–40%	3
41%–	2

Cynnwys 76% o'r cywyddau hyd at 5% o linellau anghyflawn (cyfanswm 102) tra cynnwys 18 cywydd, sef ychydig dros un allan o bob deg, 10% neu ragor o linellau

<sup>54</sup> Fe'i ceir mewn 24 cywydd, sef 3, 22, 41, 49, 58, 65, 66, 70, 74, 82, 95, 101, 107, 110, 113, 116, 121, 122, 124, 129, 138, 141, 142, 147. Gw. isod lle y cyfeirir at hoffter y bardd o agor ei gywyddau â llinellau digynghanedd.

<sup>55</sup> Sef llinellau pengoll a braidd gyffwrdd ynghyd â llinellau digynghanedd. O ran hwylustod gelwir yr holl linellau hyn yn y drafodaeth yn llinellau 'anghyflawn'.

anghyflawn. Ar y llaw arall ceir 30% neu fwy o linellau anghyflawn mewn 7 cywydd. Yn 'Gwahanu' (41%) a 'Merched Llanbadarn' (43%) y digwydd y canrannau uchaf. Rhaid cydnabod y gall y tablau sy'n dangos y canrannau yn unig gyflwyno darlun camarweiniol. Cynnwys 'Yr Annerch' 6% o linellau anghyflawn ond cywydd byr 28 llinell yw hwn ac un llinell anghyflawn yn unig a geir ynddo. Er bod cynifer â 70 cywydd yn cynnwys rhyw afreolaidd-dra cynganeddol un llinell anghyffredin yn unig a welir yn 40% o'r cywyddau hynny.

Edrychir yn fwy manwl isod ar natur y llinellau anghyflawn a rhoddir sylw hefyd i'w harwyddocâd yn eu cyd-destun. Am y tro y mae un mater y tâl ei bwysleisio. Y mae modd rhoi cyfrif am sawl cywydd sy'n cynnwys llai o gynganeddion cytseiniol na'r arfer, ac felly hefyd yn achos y gynghanedd sain, o ystyried mynychder y llinellau anghyflawn, yn enwedig yn achos y 18 cywydd sy'n cynnwys 10% neu ragor o'r cyfryw linellau. Ymddengys mai ar draul y cynganeddion cytseiniol y defnyddiwyd llinellau anghyflawn yn 'Merch Ragorol', y cywydd sy'n cynnwys y nifer isaf oll o gynganeddion cytseiniol (15%) ond sydd hefyd yn cynnwys cynifer â 30% o linellau anghyflawn. Cywyddau eraill sy'n cynnwys llai nag arfer o gynganeddion cytseiniol ond sydd hefyd yn cynnwys nifer arwyddocaol o linellau anghyflawn yw 'Y Seren' (22% cytseiniol, 30% anghyflawn), 'Y Cwt Gwyddau' (29.5% cytseiniol a 36.5% anghyflawn), 'Gwayw Serch' a 'Rhybudd y Brawd Du' (36% cytseiniol a 23% anghyflawn yn y naill a'r llall). Ar y llaw arall ceir nifer arwyddocaol o linellau anghyflawn mewn tri chywydd sy'n cynnwys llai o linellau sain nag arfer, sef 'Gwahanu' (12% sain a 41% anghyflawn), 'Dan y Bargod' (17.5% sain a 30.5% anghyflawn) a 'Merch Gyndyn' (20% sain a 35% anghyflawn). Y mae canran y cynganeddion cytseiniol a'r gynghanedd sain fel ei gilydd yn is na'r arfer yn 'Merched Llanbadarn' sy'n cynnwys 43% o linellau anghyflawn (29.5% cytseiniol a 23% sain). Tâl nodi bod canran y sain yn is mewn un cywydd arall sy'n cynnwys nifer anghyffredin o gynganeddion llusg, sef 'Cyngor gan Frawd Bregethwr' (15% sain a 25% llusg).

Er gwaethaf y pegynnu daw patrymau cyffredinol i'r amlwg gyda golwg ar fynychder pob cynghanedd o edrych ar yr ystadegau a gynigir. Atgyfnerthir y patrymau hyn pan edrychir ar fathau gwahanol o gerddi gan ddilyn awgrym Peredur Lynch nad anfuddiol fyddai ystyried mynychder y cynganeddion ym mhob *genre*.<sup>56</sup> Edrychwyd ar wyth o fathau gwahanol a chynnwys y rhain rhyngddynt 39% o holl gywyddau'r bardd.

Math	nifer	cyts.	sain	cyts. + sain	llusg	eraill
Llatai	7	46	40	86	9	5
(Ffug-)farwnadau	4	47.5	41	88.5	11	0.5
Delweddau estynedig	8	50	39	89	7	4
Ifor Hael	4	51	35	86	10	4
Rhwystrau	8	53	34	87	10	3
Helyntion carwriaethol	15	55	30	85	10	5

<sup>56</sup> Peredur I Lynch, 'Cynghanedd cywyddau Dafydd ap Gwilym', 130.



Dyddgu                                    6      59      30      89      8      3

A barnu wrth y dosbarthiad hwn ymddengys y rychwant yn llai eithafol, sef 46–59% (y cynganeddion cytseiniol), 30–40% (y gynghanedd sain), 7–10% (y gynghanedd lusg), a 0.5–5% (llynellau anghyflawn). Er mai yn nosbarth y marwnadau y digwydd y nifer lleiaf o linellau anghyflawn, dosbarth sydd hefyd yn cynnwys sawl dilyniant a glymir ynghyd â chymeriad llythrennol a chynganeddol grymus, ac y mae hynny yn gyson â'r deyrnged ddiffuant i awen cyd-brydyddion Dafydd (ac o'r safbwynt hwnnw nid yw nac yma nac acw a yw'r bardd yn fyw ai peidio), yn y dosbarth hwn y ceir y ganran uchaf o'r gynghanedd sain. Y cerddi i Ddyddgu sy'n cynnwys y ganran uchaf o gynganeddion cytseiniol a geill fod a wnelo hynny â'i statws er bod y portread a gynigir yn y cerddi o'r ferch fonheddig sydd y tu hwnt i gyrraedd y bardd yn gyson â chywair y canu serch cwrtais. Awgrymwyd mai annerch Angharad, gwraig Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, a wneir yn 'Merch o Is Aeron', cywydd sy'n cynnwys cynifer â 74% o linellau croes a thraws.

Er gwaethaf y cysondeb ymddangosiadol hwn ceir cryn amrywio hefyd o ran rychwant y cynganeddion unigol fel y nodwyd eisoes. 'Anodd iawn, ar yr olwg gyntaf', awgrymodd Peredur Lynch, 'yw cysoni'r fath amrywio â'r gred fod yr holl gerddi hyn yn waith yr un bardd a bod iddynt nodweddion crefft un bersonoliaeth farddol'.<sup>57</sup> Rhoddwyd sylw i'r cerddi hynny sy'n cynnwys canran isel o gynganeddion sain ond buwyd yn llai parod i fynegi amheuaeth am ddilysrwydd y cerddi a oedd yn cynnwys canran anarferol o uchel o gynganeddion cytseiniol ac eithrio 'Y Cloc', ac yn achos y cywydd hwnnw y mae tystiolaeth fewnol y gerdd yn creu amheuon ynghylch yr awduraeth. Fel y nodwyd, cynnwys 'Llw Gau' ac 'Esgeuluso'r Bardd', dwy gerdd debyg o ran eu thema, ragor na 80% o linellau cytseiniol ond diogelwyd y naill fel y llall yn Llyfr Gwyn Hergest a dichon fod hynny yn ateg i'w dilysrwydd.

Wrth geisio rhoi cyfrif am yr amrywio dylid cofio nad peiriant yn esgor ar gywyddau unffurf mo'r bardd, ac y mae'r amrywio cynganeddol yn gyson â'r amrywiaeth thematig rhyfeddol sy'n un o nodau amlycaf y canu. Os dychwelir eto at y cywyddau hynny sy'n cynnwys canran uchel o linellau anghyflawn gwelir eu bod yn dra amrywiol o ran eu themâu. Cerdd yn nhraddodiad y *fabliaux* yw 'Y Cwt Gwyddau'. Disgrifir y modd y ffoes y bardd llwfr rhag y gŵr eiddig sy'n ei herio i'w wynebu mewn gornest ac ni all ddal ei dir hyd yn oed pan ddaw wyneb yn wyneb â gŵydd famol. Y mae traean llynellau'r cywydd hwn yn rhai anghyflawn, yn wahanol i 'Sarhau ei Was' (50% cytseiniol, 6% anghyflawn) a 'Trafferth mewn Tafarn' (51% cytseiniol, 0% anghyflawn) nad ydynt yn annhebyg o ran eu cywair. Mawrygir yn 'Y Seren' un o elfennau'r byd naturiol sy'n cynorthwyo'r bardd ac yn hynny o beth ymdebyga i'r dosbarth o gerddi llatai. Ond lle y ceir 30% o linellau anghyflawn yn y cywydd dan sylw ni cheir yr un yn 'Yr Wylan' (70% cytseiniol); ceir 1% yn 'Y Gwynt' a 2% yn 'Yr Ehedydd' ac 'Yr Iwrc'h'. Cywydd arall sy'n cynnwys canran anghyffredin o linellau anghyflawn yw 'Dan y Bargod' (30.5%). Gwahanol iawn yw canran y cynganeddion yn y cerddi eraill sy'n cynnwys thema'r serenâd, sef 'Y Rhew', 'Y Ffenestr', 'Caru yn y Gaeaf', ac yn yr un modd gwelir bod y cywydd rhwystr, 'Y Don ar Afon Dyfi' (17.5%

<sup>57</sup> *Ib.*, 129.

anghyflawn) a 'Morfudd fel yr Haul' (21% anghyflawn), sy'n cynnwys delwedd estynedig, yn wahanol iawn i gywyddau cyfatebol.<sup>58</sup>

Cynigiodd D J Bowen mai i gyfnod cynnar yng ngyrfa'r bardd y perthyn ei gywyddau gorchestol a bod cerddi diweddarach yn llai caboledig. (Ar y llaw arall credai Dafydd Johnston mai fel arall y digwyddodd ac mai yn y cywyddau cynnar y ceir y llinellau anghyflawn).<sup>59</sup> Er ei fod yn cydnabod nad oes modd dyddio'r cerddi bellach barnai fod y pum cywydd isod ymhlith cyfansoddiadau cynnar y bardd.<sup>60</sup> Nodir canrannau'r cynganeddion a sylwer mai un llinell anghyflawn yn unig a welir rhwng y pum cywydd:

	Cyts	Sain	Llusg	Eraill
Y Cusan	48	43	9	0
Mis Mai	50	41	9	0
Merch yn Edliw ei Lyfrdra	66	32	2	0
I Ddymuno Boddi'r Gŵr Eiddig	56	36.5	6	1.5
Caer Rhag Cenfigen	48	31	21	0

Anodd canfod unrhyw batrymau amlwg yn y cerddi hynny sy'n cynnwys nifer anghyffredin o linellau anghyflawn. Tâl nodi, fodd bynnag, fod dilyniant o dair llinell afreolaidd ym mraich gyntaf y tri chwpled agoriadol mewn pedwar cywydd, sef 'Offeren y Llwyn', 'Y Seren', 'Gwayw Serch', a 'Merch Gyndyn'. Yn y cyswllt hwn, y mae'n werth nodi hefyd fod y bardd yn ddigon parod i agor ei gywyddau â llinellau digynghanedd. Digwydd hyn, er enghraifft, yn 'Y Cwt Gwyddau', 'Dan y Bargod', 'Merched Llanbadarn' a 'Talu Dyled'. Yn wir ceir agoriad digynghanedd yn un o bob deg o'r cywyddau.<sup>61</sup> Yn achos pump o'r cywyddau, a 'Marwnad Gruffudd ab Adda' yn eu plith, agorir y cywydd â llinell nad yw yn cynnwys cynghanedd gyflawn.<sup>62</sup> Cyfeiriwyd uchod at hoffter y bardd o agor ei gywyddau â'r gynghanedd lusg.

Nid oes amheuaeth na fu i Ddafydd ap Gwilym elwa ar y rhyddid a oedd ganddo i ddefnyddio llinellau afreolaidd, ac ar un ystyr colodd y prydyddion ran bwysig o'u harfogaeth farddol pan gefnwyd ar yr arfer o lunio llinellau digynghanedd a phan ddeolwyd y gynghanedd bengoll a'r gynghanedd braidd gyffwrdd tua chanol y bymthegfed ganrif. 'Yn hytrach na gweld anghyflawnder y gynghanedd ac ansefydlogrwydd y testunau fel diffygion damweiniol dros dro, y mae angen inni fod yn effro i'r cyfleoedd a gynigient i'r beirdd i ychwanegu haenau eraill o ystyr i'w cerddi',<sup>63</sup> rhybuddiodd Dafydd Johnston. Dangosodd Eurys Rolant fod y llinell

<sup>58</sup> Gwrthygyferbynier y tri chywydd rhwystr, 'Y Niwl', 'Y Fiaren', 'Y Pwll Mawn', nad ydynt yn cynnwys yr un llinell anghyflawn. Ni cheir yr un llinell anghyflawn ychwaith yn 'Serch fel Ysgyfarnog' sy'n cynnwys delwedd estynedig, a 3% yw canran y llinellau anghyflawn yn 'Hwsmonaeth Cariad'.

<sup>59</sup> Gw. Dafydd Johnston, 'Cyngan oll?' *Cynghanedd y Cywyddwyr Cynnar* (Aberystwyth, 2007), 11.

<sup>60</sup> D J Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a datblygiad y cywydd', 27.

<sup>61</sup> Digwydd hyn mewn 14 cywydd, sef rhifau 38, 39, 50, 67, 71, 76, 94, 98, 99, 104, 117, 127, 137, 143.

<sup>62</sup> Cerddi 21, 24, 37, 53, 126.

<sup>63</sup> Dafydd Johnston, 'Cyngan oll?' *Cynghanedd y Cywyddwyr Cynnar*, 21.

ddigynganedd *Mawr yw ei thwyll a'i hystryw* sy'n dilyn dilyniant a saerniwyd yn gelfydd trwy ddwyn ynghyd gynganedd gyflawn ac addurn y cymeriad llythrennol yn y cywydd 'Morfudd fel yr Haul' yn gyfrwng pwysleisio anwadalwch gwrthrych y cywydd.<sup>64</sup> Yn yr un modd awgrymodd D J Bowen nad ar hap y dewisodd y bardd beidio â chynganeddu geiriau'r merched dilornus yn 'Merched Llanbadarn'. 'Dull y bardd o ddial ar y ddwy oedd ensynio na fedrent lunio cynganeddion tlws—ac nas haeddent'.<sup>65</sup> Un peth a ddaw i'r amlwg yw y gallai'r bardd fod wedi caboli sawl llinell ddigynganedd a'u troi yn llinellau rheolaidd, a hynny heb fawr ymdrech ar ei ran. Cynnwys y llawysgrifau y cynigion a wnaed gan gopiŵyr a datgeiniaid ar adegau gwahanol i gywiro llinellau y bernid eu bod yn wallus. Er i Dafydd ymroi i gynganeddu enw Morfudd yn ei gywyddau digwydd ei henw mewn llinell ddigynganedd yng nghwpled olaf 'Y Gwynt'. Dewisodd Thomas Parry linell a oedd yn gywir yn dechnegol ond y pris y bu'n rhaid ei dalu oedd hepgor enw Morfudd.<sup>66</sup>

Cywydd arall a leolir yng nghyffiniau Llanbadarn yw 'Merch Gyndyn'. Ni chynganeddir braich gyntaf y pedwar cwpled a roddir yng ngenau'r ferch sy'n gwrthod rhoi ateb diamwys i'r bardd sy'n deisyf oed, ac efallai fod Dafydd ap Gwilym unwaith eto yn dewis dilorni'r *forwyn lân* mewn dull cyfrwys. Ond sylwer na chynganeddir holl linellau'r bardd ychwaith yn y cywydd hwn a diau na ddylid chwilio am gymhellion cudd bob tro y gwneir defnydd o linell ddigynganedd. Amharodrydd merch arall i dderbyn y bardd yn garwr yw pwnc 'Merch yn Edliw ei Lyfrdra'. Y tro hwn cynganeddir geiriau'r ferch a chlymir dwy fraich un o'r tri chwpled lle y'i clywir yn mynegi ei safbwynt gan gymeriad llythrennol. Ni chynganeddir holl linellau'r brawd yn y cywydd 'Rhybudd y Brawd Du' a gallai hynny awgrymu sut y syniai'r bardd amdano, ond ni chynganeddir yr holl linellau a roddir yng ngenau'r bardd ychwaith. Yng nghwrs yr ymddiddan rhwng y ddau caniateir i'r brawd lefaru mewn cynganedd gyflawn mewn dau gwpled sy'n dilyn ei gilydd. Y mae awgrym yn y cywydd mai ei les ei hun sydd gan y brawd mewn golwg ac mai ei fwriad yw meddiannu'r merched unwaith y bydd Dafydd, o dan ddylanwad y rhybuddion a glywodd, yn cefnu arnynt. Tybed a yw'r ddau gwpled hyn yn ategu'r feirniadaeth ar y brawd ac yn awgrymu ei fod yn barod i geisio elwa ar yr awen farddol hyd yn oed er mwyn denu'r merched?

Ceir amrywiaeth yn y canu felly gyda golwg ar yr arddull a chyda golwg hefyd ar y cynganeddion a'r modd y'u defnyddir. Ceir amrywiaeth yn yr un modd pan ystyrir geirfa'r bardd. Ar y naill law gall y mynegiant fod yn syml ac uniongyrchol a daw hyn i'r amlwg yn y cywyddau sy'n cynnwys ymddiddan, un o'r dyfeisiau y mae'n dda gan y bardd wrthynt. Clywir rhythmau'r iaith lafar yn yr ymddiddan rhwng Dafydd ap Gwilym a'i gysgod a thrachefn yn 'Y Cwt Gwyddau', yr unig gywydd lle y clywir tri llais. Daw'r gŵr eiddig ar warthaf y bardd a rhaid iddo gymryd y goes gan anwybyddu'r her a gynigir iddo:

<sup>64</sup> Eurys Rolant, 'Morfudd fel yr Haul', 95–101.

<sup>65</sup> D J Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a datblygiad y cywydd', 7–8. Ac ymhellach: 'Yr hyn a wnaeth Dafydd ... oedd peidio â rhoi cynganeddion yng ngenau'r ddwy ferch a oedd yn siarad amdano ef y tu ôl i'w gefn (ac eithrio unwaith). Dyna eu rhoi yn eu lle'n dwt', gw. D J Bowen, 'Cywydd Dafydd ap Gwilym i Ferched Llanbadarn a'i gefndir', *Ysgrifau Beirniadol* 12 (Dinbych, 1982), 77–122. (tt. 111–12).

<sup>66</sup> Dafydd Johnston, 'Cyngan oll?' *Cynganedd y Cywyddwyr Cynnar*, 12–13.

'Hwyr yt felan ysbardun,  
Aro fi heno fy hun.  
Arfau drwg i ddigoni  
Yw'r cywyddau sydd dau di'. (67.17–20)

Ar y llaw arall gall yr eirfa fod yn fwy astrus. Cyfeiriodd John Jones, Gellilyfdy, mewn truth a luniodd ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, at adnoddau ieithyddol y prydyddion neu eu 'hamlder Cymraeg'. Un o'r meysydd y disgwylid i'r beirdd eu diogelu oedd 'the language of the Bruttons for which thee Bards ought to giue accompt for every word and sillable therein'.<sup>67</sup> Nid oes amheuaeth nad oedd 'amlder Cymraeg' Dafydd ap Gwilym yn rhan ganolog o'i arfogaeth farddol, a manteisiodd arno i'r eithaf. Un wedd ar yr 'amlder Cymraeg' hwn yw'r cyfansoddeiriau sy'n hawlio lle mor ganolog yn y canu. Yr oedd llunio ac arfer geiriau cyfansawdd yn dechneg yr oedd iddi dras anrhydeddus ac nid oedd Dafydd ap Gwilym yn torri tir newydd yn hyn o beth. Yr hyn sy'n esgor ar newydd-deb yw'r modd y dewisodd arfer cyfansoddeiriau wrth gyflwyno'r themâu niferus hynny sy'n ymddangos am y tro cyntaf yn ei ganu. Fe'u ceir, er enghraifft, yn y disgrifiadau afieithus o'r llateion hynny sy'n hyrwyddo ei gynlluniau carwriaethol a hefyd yn y disgrifiadau llai canmoliaethus o'r gwrthrychau hynny sy'n ei lesteirio. Yn fynych gwelir y bardd yn cyfod dau air cyfansawdd, y naill yn safle'r orffwysfa a'r llall yn safle'r brifodl. *Llygodwraig hen llygadroth* yw'r dylluan (61.26), mae'r wylan yn *Esgudfalch edn bysgodfwyd* (45.6), y gwynt yn *Drythyllfab ar draethellfor* (47.42) a'r cyffyllog sy'n peri i'r cariadon dybio bod Eiddig ar eu gwarthaf yn greadur *Gwylltruthr peisfrych gwahelldrwyn* (53.44). Canlyniad y dechneg hon yw llwytho'r llinellau tra chynnil eu mynegiant â disgrifiadau cyfoethog. Cofnodir ffeithiau ystrydebol am y creaduriaid a'r elfennau naturiol a'u cynysgaeddu yr un pryd â chymeriad unigryw.

Gellir bathu geiriau trwy ychwanegu rhagddodiaid a manteisiodd y bardd ar hyn drachefn. Y mae Dyddgu yn *ddiwaradwyddgamp* (87.1), yn *ddiderfysg* (92.9) ac yn *ddianwadal* (92.13) a Morfudd hithau yn *ddiledryw* (100.9).

Gwedd arall sy'n cyfoethogi adnoddau ieithyddol y bardd yw'r geiriau hynny a fenthyciwyd i'r Gymraeg, er na farnai Goronwy Owen fod yr arfer hon yn un i'w chymeradwyo:

E fu agos i'r llychwydgi gan Dd. ap Gwilym a lladd y Gymraeg wrth gymmyscu Saesneg a hi; yr hyn a wnaethai yn ddifeth oni buasai rai o wyr Gwynedd heb fedru dim Saesneg.<sup>68</sup>

Nododd Rachel Bromwich fod llawer o'r rhain yn tarddu yn wreiddiol o'r Ffrangeg er nad oes modd gwybod bellach ai yn uniongyrchol o'r Ffrangeg y bu iddynt gyrraedd y Gymraeg. Ac er nad oes modd gwybod ychwaith i ba raddau yr oeddynt wedi gwreiddio yn yr iaith erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ymddengys mai Dafydd

<sup>67</sup> G J Williams, 'Tri Chof Ynys Brydain', LIC 3 (1954–5), 234–9 (t. 235).

<sup>68</sup> J H Davies, *The Letters of Goronwy Owen (1723–1769)* (Cardiff, 1924), 111, llythyr Goronwy Owen at William Morris, 21 Mai 1754.

ap Gwilym oedd y cyntaf i'w defnyddio mewn cyd-destun llenyddol.<sup>69</sup> Byddai hynny ynddo ei hun yn beth newydd ond yr hyn sy'n wirioneddol gyffrous yw'r modd y defnyddir llawer o'r ymadroddion benthyg mewn ffordd drosiadol. Y mae'r niwl yn *habrsiwn* (57.46 *Habrsiwn tir anehwybrsych*), dail y coed yn *ffloringod* (32.13 *Ffloringod brig ni'm digiai*) a'r cusan megis *pacs* (83.25 *Cain bacs min diorwacserch*).

Y wedd ar grefft Dafydd ap Gwilym a ddenodd y sylw pennaf yw ei ddelweddau. Dyma ran ganolog o'i arfogaeth ac y mae'r canu yn gyforiog ohonynt. Fe'u defnyddir wrth ddisgrifio'r cariadon er mai priodol nodi mai dilyn arfer ei ragflaenwyr a wnâi'r bardd wrth gyffelybu cnawd ei gariadferch i eira, i ewyn ac i wawn. Gan fod cynifer o themâu newydd yn y canu digwydd llawer o'r delweddau o'r herwydd mewn cyd-destun gwryfol a haeddant sylw pe na bai ond am hynny. Cyfeiriwyd eisoes at darddiad estron rhai o'r delweddau ac y mae'r hyn a ddywedwyd am adnoddau ieithyddol y bardd, ei 'amlder Cymraeg', yn berthnasol. Ond y mae'r delweddau hefyd yn ffrwyth dychymyg disglair—'ffansi bur', chwedl W J Gruffydd<sup>70</sup> neu 'egni creadigol' rhyfeddol, chwedl R Geraint Gruffydd.<sup>71</sup> Gan fod cynifer ohonynt yn digwydd yn y cywyddau llatai rhoddwyd bri arbennig ar y rhain. 'Dyfalur adar yw ei brif gampwaith ef', oedd barn W J Gruffydd.<sup>72</sup>

Digwydd llawer o'r delweddau yn unigol, ac fe'u ceir ar ffurf sangiadau yn britho'r cwpledi a'r brawddegau hirion sy'n estyn dros sawl cwpled fel ei gilydd. Fe'u ceir hefyd yn glystyrrau, a hynny yn y cywyddau llatai a rhwystr yn fwyaf arbennig. Dyfalu yw'r enw a roddwyd ar yr arfer o bentyrru delweddau a pherthyn camp arbennig i ddyfaliadau Dafydd ap Gwilym. Gall y delweddau ymddangos yn ddigyswllt ar yr olwg gyntaf ond o edrych yn fanylch gwelir eu bod yn ddieithriad yn cyfleu nodwedd neu gynneddf a berthyn i'r gwrthrych dan sylw, boed liw neu siâp neu ansawdd neu ryw hynodrwydd arall cynhenid. Y twf cordeddog sy'n caethiwo a maglu'r sawl a ddaw i gyswllt ag ef yw'r nodwedd sy'n rhoi undod i'r delweddau yn 'Y Fiaren':

Gwden rybraff ei thrafferth,  
Gwyllt poen llinin gwallt perth.  
Cas ei gwaith yn cosi gwÿdd,  
Cebustr o gringae cybydd;  
Coes garan ddygn dan sygn sêr,  
Cynghafog gangau ofer;  
Tant rhwyd a fwriwyd o fâr,  
Telm ar lethr pen talar;  
Tytmwy, ar adwy'r ydoedd,  
Tant coed o'r nant, cadarn oedd. (56.57–66)

Gwelir mai arfer y bardd yw hoelio sylw'r gynulleidfa ar y ddelwedd unigol trwy ei lleoli mewn man amlwg ar ddechrau'r llinell a manteisia hefyd ar y cymeriad llythrennol sy'n ychwanegu at y pwyslais ac yn creu undod yr un pryd. Ochr yn ochr

<sup>69</sup> Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986), 83–4.

<sup>70</sup> W J Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1935), 56.

<sup>71</sup> R Geraint Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym*, 47.

<sup>72</sup> W J Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym*, 72.

â'r iaith ffigurol ceir disgrifiadau sy'n seiliedig ar sylwgarwch manwl. 'Ni bu neb erioed mwy adnabyddus o natur', oedd dyfarniad Gweirydd ap Rhys.<sup>73</sup> Ar briodolledau ac arferion yr aderyn y mae'r pwyslais yn 'Y Cyfflog' yn hytrach nag ar bortread trosiadol:

Edn brych, dilewch o liw,  
O adar gaeaf ydiw.  
Modd y gwnaeth, nid maeth fy myd,  
Wrth ben bagl wrthban bawglud,  
Cychwyn yn braff ei drafferth,  
Adain bôl, odd dan y berth  
A neitio hyd pan ytoedd  
Mewn perth ddu. Nid o'm porth oedd. (53.31–8)

Dro arall, yn hytrach nag amlhau delweddau, dewis y bardd ganolbwyntio ar un ddelwedd a'i datblygu. Diriaethu profiadau ym myd serch a wneir ar yr achlysuron hyn ac awgrymwyd bod y rhain drachefn yn newydd yn eu dydd.<sup>74</sup> Perthyn cryn gamp i gywyddau megis 'Hwsmonaeth Cariad' a 'Morfudd fel yr Haul' lle yr archwiler holl bosibiliadau'r ddelwedd a'i chymhwysio at y profiad dan sylw. Yn 'Hwsmonaeth Cariad' disgrifir gofal a llafur yr hwsmon wrth iddo gyflawni ei amryfal orchwyllion tymhorol a chyffelybir hynny i ymdrechion y bardd i achlesu ei gariadferch ac i feithrin ei serch tuag ati. Er bod Morfudd yn ddisglair a phrydferth a gwresog fel yr haul pan fydd yn ei anterth y mae hefyd yn ddi-ddal a chyfartelir hynny â'r modd y bydd yr haul yntau nid yn unig yn cuddio y tu ôl i gwmwl ond hefyd yn diflannu yn llwyr ar ddiwedd dydd.<sup>75</sup>

Peth arall a wna'r bardd yw cynnig cyfres o ddelweddau sydd unwaith eto yn gyfrwng diriaethu profiadau.<sup>76</sup> Cyflwynir tri darlun yn 'Caru Merch Fonheddig' ac yn 'Anwadalrwydd' a chymhwysir y darluniau trwy arfer fformiwla megis *Felly y gwnaeth*:

Felly y gwnaeth, gaeth gariad,  
Gar fy mron, goryw fy mrad,  
Â myfi, cywely call,  
Unne geirw, neu ag arall. (76.27–30)

Yn 'Dyddgu' dilynr portread estynedig o wrthrych y cywydd sy'n seiliedig ar olygfa yn chwedl 'Peredur' gan y cymhwysiad:

Felly mae, eurgae organ,

<sup>73</sup> R I Prys (Gweirydd ap Rhys), *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* (Liverpool, d.d.), 107.

<sup>74</sup> Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*, 82.

<sup>75</sup> Trafodir y cywydd gan Eurys Rolant, "Morfudd fel yr Haul", 95–101; hefyd gan John Rowlands, 'Morfudd fel yr Haul', *Ysgrifau Beirniadol* 6 (Dinbych, 1971), 16–44. Gw. sylwadau R Geraint Gruffydd ar 'Hwsmonaeth Cariad' yn *'Athro pawb oedd': golwg ar Ddafydd ap Gwilym*, 19–20.

<sup>76</sup> Gw. R Geraint Gruffydd, 'Cywyddau triawdaidd Dafydd ap Gwilym: rhai sylwadau', *Ysgrifau Beirniadol* 13 (1985), 167–77.

Dyddgu a'r gwallt gloywddu glân. (86.53–4)<sup>77</sup>

Y mae'r delweddau estynedig a'r darluniau estynedig fel ei gilydd yn esgor ar gywyddau sydd yn gyfanweithiau crwn a boddhaus, a gwelir bod cywyddau megis 'Dyddgu a Morfudd' lle y cyfosodir y ddwy gariadferch, a 'Dewis Un o Bedair' lle yr ystyrir rhinweddau a gwendidau pedair merch, eto yn unedau a saerniwyd yn gelfydd. Dilynir patrwm clir yn y cywyddau llatai drachefn am fod sawl elfen yn dod ynghyd: cyfarch y llatai, ei ddisgrifio trwy ei ddyfalu, cyflwyno'r cais a disgrifio'r siwrnai arfaethedig. Nid yw'r cynllun cyn amlyced yn 'Yr Ehedydd', serch hynny. Er bod trefn y llinellau yn gyson yn yr holl lawysgrifau efallai i'r cymeriad llythrennol beri dwyn ynghyd gwpledi a berthynai i rannau gwahanol o'r gerdd. Y mae'r cywyddau naratif sy'n seiliedig ar amryfal anturiaethau carwriaethol yn creu eu momentwm eu hunain wrth i'r bardd, ar ôl iddo osod y llwyfan, fynd rhagddo i ddilyn y digwyddiadau a'u cofnodi yn eu tro. Yn achos y rhwystrau fe'u dychenir yn ddiymatal a bygythiad y bardd y bydd yn dial arnynt am eu hafadwaith sydd yn cloi'r dosbarth hwn. Yn 'Y Breuddwyd' lle y dehonglir breuddwyd a gafwyd—yr unig gywydd ymddiddan lle na chaiff y bardd ei hun y gair olaf—ac yn 'Pererindod Merch' lle y dilynir y ferch a wrthododd y bardd ar daith i Dyddewi lle y disgwylir iddi erfyn am faddeuant, y mae'r cynnwys yn esgor ar undod mewn dull sy'n ymddangos yn un diymdrech. Y mae ôl cynllunio manwl ar 'Merch o Is Aeron' ar y llaw arall lle y ceir dilyniant o bum datganiad, pob un yn cynnwys dau gwpled a phob un yn dechrau â'r gair *Gwae* ....

Y wedd olaf ar grefft Dafydd ap Gwilym y dymunir cyfeirio ati—un na roddwyd llawer o sylw iddi—yw'r modd y mae yn agor ac yn cloi ei gerddi. Galwodd Thomas Parry sylw at y nodwedd hon er mai hawdd tybio ar sail yr enghreifftiau a ddyfynnodd mai cloi ei gerddi â chwpledi bachog ac awgrymus oedd camp fwyaf y bardd.<sup>78</sup> Cynigir bod dulliau'r bardd o agor ei gerddi lawn cyn bwysiced. Rhaid cofio mai ar lafar y datgenid y farddoniaeth. Dangosodd Barry Lewis mai arfer y Gogynfeirdd oedd agor eu cerddi naill ai trwy gyfarch Duw neu trwy ddisgrifio priodoleddau'r tymhorau a byd natur, er bod yr arfer yn llai amlwg erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>79</sup> Gallai'r gynulleidfa yn y llys ddisgwyl clywed cân o fawl i'r arglwydd pan safai'r bardd neu'r datgeiniad ar ei draed. Nod amgen cerddi Dafydd ap Gwilym ar y llaw arall yw eu hamrywiaeth rhyfeddol o ran eu cywair a'u themâu. Y mae i'r agoriad swyddogaeth allweddol yn y cyd-destun hwn, sef rhybuddio a pharatoi'r gynulleidfa ar gyfer yr hyn sy'n dilyn yn yr un modd ag y byddai baledwyr oes ddiweddarach yn denu ac yn paratoi eu cynulleidfaoedd hwythau â fformiwla megis 'Gwrandewch ar hanes ...'. Yn y cyswllt hwn nid anfuiddiol cyfosod anterliwtiau'r ddeunawfed ganrif a chywyddau Dafydd ap Gwilym. Cynigid i gynulleidfa'r anterliwt grynodedb hwylus o ddigwyddiadau'r chwarae a hynt a helynt y cymeriadau yn araith agoriadol y Traethydd. Yn yr un modd ceir yn y cywyddau naratif sy'n cofnodi helyntion carwriaethol y bardd awgrym clir ond cynnil ar y dechrau yn deg, a hynny mewn

<sup>77</sup> Sylwer ar y modd y defnyddir y fformiwla 'Annhebig' neu 'Nid annhebig' wrth gyferbynnu ar achlysuron eraill: 33.31, 53.15, 86.33, 111.45, 114.33.

<sup>78</sup> Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym', 76–8.

<sup>79</sup> Gw. Barry James Lewis, '“Llafurfaith a waith a weinyddaf”: Dulliau'r Gogynfeirdd o agor cerdd', *LIC* 28 (2005), 1–25.

sangiad neu gyfres o sangiadau, na fydd y cynlluniau yn dwyn ffrwyth ac na fydd y gobeithion yn cael eu gwireddu. Diau fod a wnelo'r ddyfais ag ymwybod y bardd ag anghenion ei gynulleidfa fyw.

Yr hyn a wna'r bardd ran fynychaf yw hoelio sylw'r gynulleidfa yn syth ar y pwnc a fydd yn rhoi cyfeiriad ac undod i'r gerdd trwy enwi gwrthrych diriaethol yn y cwpled cyntaf os nad yn y llinell gyntaf. O'r herwydd tasg gymharol ddiraffferth i olygyddion diweddar fu bedyddio'r cywyddau ag enwau cofiadwy (mater gwahanol fyddai cyflawni gorchwyl debyg gyda cherddi serch bardd megis Bedo Brwynllys o'r bymthegfed ganrif). Dyma'r dull a arferir wrth agor nifer o'r cywyddau llatai (e.e. *Yr wylan deg ar lanw, dioer*), ac felly yn achos rhai o'r cywyddau rhwystr (e.e. *Tri phorthor, dygyfor dig*), y cywyddau natur (e.e. *Tydi'r haf, tad y rhyfig*) a hefyd yn achos y cerddi niferus sy'n troi o amgylch syniad neu ddiriaeth ganolog (e.e. *Annerch, nac annersch, gennad; Lleidr i mewn diras draserch; Uchenaid wedn aflednais; Yr het fedw, da y'th gedwir*). Yn fynych bydd y modd y disgrifir y ddiriaeth yn gyfrwng cyfleu ymagweddiad y bardd a thrywydd y gerdd (gweler yr enghreifftiau uchod a cf. *Y celynllwyn, cofl iawnllwyth; Truan i'r dylluan deg*).

Ar dro cyflwynir y pwnc neu'r ddiriaeth o fewn cwmpas y cwpled agoriadol yn hytrach nag yn y llinell gyntaf:

Dodes Duw, da o dyst wyf,  
Dwybleth i hudo deublwyf. ('Gwallt Morfudd' 114.1–2)

Rhyhir wyd a rhy gyflun,  
Rho Duw, gledd, ar hyd y glun. ('Y Cleddyf' 71.1–2)

Yn achlysurol, fodd bynnag, ymwrthodir ag uniongyrchedd y dull hwn a chreir chwilfrydedd ymhlith y gynulleidfa wrth i'r bardd ohirio'r datgeliad. Mewn cywyddau megis 'Y Ceiliog Bronfraith', 'Caer rhag Cenfigen', 'Merch yn Ymbincio', 'Y Deildy', cyflwynir y pwnc neu'r ddiriaeth ar ddiwedd brawddeg sangiadol sy'n estyn dros ddau a thri a phedwar cwpled:

Y mae pob Mai difeioed,  
Ar flaenau canghennau coed,  
Cantor hydr, ar gaer wydr gyll,  
Esgud dan wyrddion esgyll,  
Ceiliog, teg reg rhag organ,  
Bronfraith drwy gyfraith a gân. ('Y Ceiliog Bronfraith' 49.1–6)

Cynghorfynt, wan Frytaniaid,  
Cenedl Susar, blaengar blaid,  
A'i plaodd, o chwplëir,  
Ac a'i rhywnaeth, gwaeth no gwir,  
Rhwym o gynfigen a rhus,  
Ac anian gynfigennus  
Yw gwarafun yn unnod  
I ddyn glân ei ddawn a'i glod. ('Caer rhag Cenfigen' 122.1–8)



Yn y cywydd 'Serch fel Ysgyfarnog' ymatelir rhag enwi'r anifail o gwbl. Yr hyn a wneir ar yr achlysur hwn yw ei gyflwyno yn anuniongyrchol ar ffurf pos (sylwer pa mor annelwig yw'r llinell agoriadol y tro hwn) trwy ddisgrifio ei nodweddion a'i gyneddfau a thrwy orfodi'r gynulleidfa i ddyfalu ynghylch gwir bwnc y gerdd:

Llyma bwynt, lle mae y bydd  
Llyfr canon llafur cynydd:  
Helynt glastorch a hwyliai,  
Hydr drafferth, o'r berth y bai,  
Glustir lwyd, ger glasterw lwyn,  
Gernfraith, gyflymdaith lamdwyn. (75.1–6)

Mewn dosbarth arall o gerddi agorir trwy enwi'r ferch o dan sylw, boed Forfudd (*Da Forfudd sinoblrudd syw; Teg Forfudd, Tegau eurfalch; Morfudd weddaidd anghywir*) neu Ddyddgu (*Dyddgu liw dydd goleuaf; Dyddgu ddiwaradwyddgamp*) neu ryw ferch arall anhysbys (*Y ferch anllad a'm gwadawdd; Yr adlaesferch, wawr dlofain; Y ferch yn yr aur llathroyw*).

Dull arall a arferir yw agor y cywydd trwy bwysleisio cyflwr emosiynol neu gorfforol y bardd (e.e. *Plygu rhag llid yr ydwyf; Mau aflwyddiant, coddiant cawdd; Curiodd anwadal galon*) er bod y trywydd a ddilynir wedyn yn gallu amrywio yn fawr. Cywydd sy'n bendithio un o elfennau'r greadigaeth yw 'Y Seren' sy'n agor â'r datganiad *Digio'dd wyf am liw ewyn* tra dilynir y gŵyn *Uchel yr wyf yn ochi* â dadl ar doriad gwawr rhwng y bardd a'i gariadferch yn null yr *aubade*. Cywydd rhwystr yw 'Y Mwdwl Gwair' (*Ai llai fy rhan o anhun*), ac ymgais y bardd i olrhain yn drosiadol 'Achau Hiraeth' sy'n dilyn ei honiad *Digwsg fûm am ail Degau*. Pwysleisir yr ymateb emosiynol yn y marwnadau i Fadog Benfras ac i Ruffudd Gryg drachefn.

Gwelir fformiwlâu o fath gwahanol ar waith yn y cerddi storïol lle yr adroddir hanes anturiaethau'r bardd wrth iddo geisio cwrdd â'i gariadferch. I'r dosbarth hwn y perthyn cywyddau rhwystr megis 'Y Niwl' ac 'Y Pwll Mawn', cywyddau sy'n cofnodi troeon trwstan megis 'Y Cwt Gwyddau' a 'Trafferth mewn Tafarn', a chywyddau sy'n seiliedig ar bob math o sefyllfaoedd eraill megis yr ymddiddan rhwng y bardd a'i gysgod ('Ei Gysgod') a'i ymddiddan â'r Bиден ('Cyngor y Bиден'). Byddai'r geiriau 'Fal yr oeddwn...' sy'n agor nifer o'r rhain yn un awgrym a fyddai'n peri i'r gynulleidfa dybio bod rhyw ddigwyddiad cyffrous ar fin cael ei gyflwyno. Lleolir nifer o'r digwyddiadau hyn mewn amser (*Doe yr oeddwn, dioer eddyl; Digrif fu fy ngwaith neithiwy; Boreddydd, bu wawr eiddun, / Y bu ym gyfarfod â bun*) a chyffredin hefyd yw'r syniad o deithio i gwrdd â merch (*Cerddais o fewn cadleisiau; Fal yr oeddwn yn myned; Cerddais yn gynt, helynt hir; A gerddodd neb er gordderch*).

Esgorodd *Gwaith Dafydd ap Gwilym* Thomas Parry ar gnwd toreithiog o ymdriniaethau gwerthfawr â gwaith y bardd o Geredigion. Gobeithio y bydd y golygiad hwn yn creu diddordeb o'r newydd yn ei waith. Ni chlywyd y gair olaf am Ddafydd a'i awen.



*Dafydd ap Gwilym.net*

©A Cynfael Lake 2007